Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**TACT (Ymddiriedolaeth y Glasoed a Phlant)**

**Ymddiriedolaeth y Glasoed a Phlant**
**303 Hither Green Lane**
**Llundain**
**SE13 6TJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# TACT (Ymddiriedolaeth y Glasoed a Phlant)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Maethu |
| Darparwr Cofrestredig | Ymddiriedolaeth y Glasoed a Phlant |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Mehefin 2018 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Ymddiriedolaeth y Glasoed a Phlant (TACT) yn elusen gofrestredig annibynnol, genedlaethol sy'n darparu gwasanaethau maethu ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae TACT Cymru yn gweithredu gwasanaethau maethu yng Nghymru. Caeodd yr asiantaeth maethu pob un o'i swyddfeydd, ac mae'n wasanaeth i Gymru gyfan lle mae'r staff yn gweithio o gartref.

Mae TACT yn wasanaeth sy'n ymrwymedig i hyrwyddo llesiant plant. Mae'r plant yn byw gyda gofalwyr maeth sy'n deall eu hanghenion ac yn hyrwyddo eu hawliau a'u hawliadau. Mae eu hanghenion yn hysbys ac yn cael eu deall, ac mae gwasanaethau addysg ac iechyd ar gael iddynt yn unol â'u cynlluniau gofal a chymorth a'u cynlluniau lleoli. Maent yn cael eu cefnogi i gynnal cydberthnasau o bwys ac i gael hwyl a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden.

Caiff y gofalwyr maeth eu cefnogi'n dda ac maent yn uchel eu cymhelliant. Cânt eu cefnogi gan staff profiadol sy'n eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn adolygu eu cymeradwyaeth bob blwyddyn. Mae darparwr y gwasanaeth wedi nodi bod angen gwella'r hyfforddiant craidd a gynigir i ofalwyr maeth a staff ac mae wedi dechrau mynd i'r afael â hyn.

Caiff y gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol eu cefnogi'n dda gan eu rheolwr a'u harweinwyr.  Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol ac mae systemau ar waith i fonitro a gwella'r gwasanaeth yn barhaus.

## Llesiant

Mae trefniadau ar waith i sicrhau y gall y plant roi barn ar eu gofal sy'n cyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth Mae'r gwasanaeth yn cyflogi gweithwyr ymgysylltu a chyfranogi sy'n ymgymryd â gwaith uniongyrchol â'r plant er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i ddeall eu hawliau a'u hawliadau. Maent yn hwyluso cyfleoedd misol i'r plant gwrdd â phlant eraill â phrofiad o fod mewn gofal a chynnal cydberthnasau ystyrlon. Caiff y plant gyfleoedd i gwrdd â'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn ystod ei ymweliadau, maent yn mynychu eu hadolygiadau plant sy'n derbyn gofal ac ymgynghorir â nhw fel rhan o'r broses adolygu ffurfiol a gynhelir bob blwyddyn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymgysylltu â'r plant yn ystod digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd, gan gynnwys taith breswyl ddiweddar.

Mae plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi creu ffilm fer i helpu plant newydd sy'n symud i mewn i leoliad gofal maeth, i'w helpu i ymgartrefu ac i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael i'r plant mewn amryw o fformatau sy'n addas i'w hoedran a'u lefel dealltwriaeth. Mae canllaw ysgrifenedig yn rhoi gwybodaeth am y gofal a'r cymorth y bydd y plant yn eu cael, sut y caiff eu lleisiau eu clywed a sut i wneud cwyn. Mae rhai polisïau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gan y gofalwyr maeth lyfrau croeso sy'n cynnwys lluniau o'r cartref, aelodau'r teulu a gweithgareddau yn yr ardal leol er mwyn helpu i sicrhau profiad cadarnhaol i'r plant wrth iddynt symud yno.

Caiff addysg y plant ei hyrwyddo, mae gan y gwasanaeth ddyheadau addysgol uchel ar gyfer y plant ac mae rhai yn symud ymlaen i addysg bellach. Mae'r gofalwyr maeth yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi'r plant i gyflawni a chyrraedd eu llawn botensial. Mae gan yr asiantaeth wasanaeth addysg sy'n monitro ac yn hyrwyddo canlyniadau addysgol cadarnhaol ar gyfer y plant. Mae'n eirioli ar ran y plant ac yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ac y mae ganddynt yr hawl iddo. Caiff y plant eu hannog i roi cynnig ar weithgareddau a diddordebau newydd, a chânt eu cefnogi i ddatblygu hobïau newydd ac i ymuno â chlybiau. Caiff y plant gyfleoedd i gymdeithasu ac i wneud ffrindiau mewn modd cadarnhaol.

Caiff anghenion iechyd y plant eu hyrwyddo a'u cefnogi. Maent wedi'u cofrestru â'r gwasanaethau iechyd lleol ac mae'r gofalwyr maeth yn sicrhau eu bod yn mynychu apwyntiadau iechyd cyffredionl. Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweithiol wrth sicrhau bod y plant yn cael help a chymorth arbenigol. Mae rhai gofalwyr maeth yn cael hyfforddiant wedi'i deilwra'n arbennig i ddiwallu anghenion iechyd cymhleth plant penodol. Fodd bynnag, mae angen gwella cydymffurfiaeth gofalwyr maeth â hyfforddiant cymorth cyntaf. Caiff y plant eu hannog i ymarfer corff ac i fwyta deiet iach.  Caiff llesiant emosiynol y plant ei hyrwyddo, ac mae darparwr y gwasanaeth yn defnyddio asiantaeth therapiwtig sy'n helpu gofalwyr maeth i ddeall anghenion y plant o bersbectif sy'n ystyriol o drawma.  Mae'r gwasanaeth yn anelu at ddarparu cymorth therapiwtig wedi'i deilwra at yr unigolyn. Mae'r

gwasanaeth hefyd yn defnyddio gwasanaeth anifeiliaid therapiwtig i gefnogi llesiant emosiynol y plant.

Caiff y plant ofal gan ofalwyr maeth ymroddedig sy'n hyrwyddo eu hymdeimlad o berthyn. Mae'r gofalwyr maeth yn helpu'r plant i weld y bobl sy'n bwysig iddynt. Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym fod gan TACT Cymru ethos 'teuluol' unigryw a chryf. Mae'r plant yn mynd ar wyliau â'u gofalwyr maeth a'u teuluoedd ac yn cymryd rhan mewn priodasau teuluol. Mae llawer o blant wedi aros gyda'u teuluoedd maeth ar ôl iddynt ddod yn oedolyn, fel rhan o drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' a thu hwnt.  Caiff y plant gymorth i feithrin eu sgiliau annibyniaeth ac mae'r gofalwyr maeth yn eu hannog wrth ymgymryd â thasgau dyddiol. Mae 'TACT Cyswllt' yn darparu cymuned cefnogol i oedolion â phrofiad o fod mewn gofal yn ogystal â chymorth ymarferol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwyr a'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth er mwyn penderfynu pa ofalwyr maeth a theuluoedd all ddiwallu anghenion y plant orau. Lle y bo'n bosibl, maent yn trefnu cyfarfodydd er mwyn sicrhau eu bod yn gweddu ac yn datblygu cynlluniau ar gyfer cyfnod trosglwyddo llyfn. Mae'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn deall eu gofalwyr maeth ac yn eu cefnogi'n dda. Cyfeiriodd un gofalwr maeth at ei weithiwr cymdeithasol goruchwyliol fel "*the most exemplary social worker I have had the joy of working with*". Dywedodd gofalwr maeth arall wrthym "*TACT have always got your back*".

Caiff y plant ofal gan ofalwyr maeth sy'n gallu diwallu eu hanghenion. Maent yn cael amgylchedd cartref magwrus a sefydlog ac yn cael cymorth i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym fod y gofalwyr maeth yn hyderus wrth herio materion os na fyddant o'r farn bod y materion hynny er lles pennaf y plentyn. Dywedodd y gofalwyr maeth wrthym eu bod yn cael eu cefnogi i uwchgyfeirio unrhyw bryderon ac i wneud cwynion ar ran y plant.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod cynlluniau lleoli, asesiadau risg a chynlluniau gofal mwy diogel ar waith ar gyfer y plant er mwyn helpu'r gofalwyr maeth i ddarparu gofal a chymorth o safon uchel i'r plant. Mae'r cynlluniau gofal mwy diogel yn benodol i ofalwyr maeth a phlant unigol. Cânt eu llunio pan fydd y plant yn symud i'w cartref maeth a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Gwnaethom drafod sut y gellir gwella'r cynlluniau hyn er mwyn cynnwys gwybodaeth fwy penodol am blant yn mynd ar goll. Mae'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn nodi risgiau neu ffactorau sy'n golygu bod y plant yn agored i niwed ac yn rhagweithiol wrth ymdrin â nhw. Caiff cyfarfodydd amlasiantaeth eu trefnu er mwyn atal materion rhag gwaethygu.

Caiff asesiadau gofalwyr eu cynnal gan dîm recriwtio canolog a gellir eu cynnal yn Gymraeg. Cynhelir o leiaf ddau ymweliad cartref fesul asesiad a mwy os bydd angen. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau yn drylwyr ac yn gynhwysfawr. Gwelsom un asesiad a oedd yn fanwl. Fodd bynnag, nid archwiliwyd dadansoddiad o gydberthnasau blaenorol yn drylwyr. Caiff yr hyfforddiant sgiliau maethu ei hwyluso fel hyfforddiant byw ar-lein yn ystod y broses asesu. Mae'r gofalwyr maeth yn ymgymryd ag astudiaethau hunangyfeiriedig sy'n rhan o'u hasesiad. Mae'r gwasanaeth wedi adolygu ac wedi gwerthuso effeithiolrwydd yr uchod, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol.

Caiff rhestrau gwirio Diogelwch Cartref eu cwblhau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd cartref diogel. Mae trefniadau ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau parhaus o gartrefi maethu drwy ymweliadau dirybudd blynyddol ac ymweliadau rheolaidd wedi'u cynllunio ymlaen llaw gan y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol. Caiff y rhan fwyaf o'r sesiynau goruchwylio eu cwblhau yn y cartref er mwyn sicrhau y gellir gweld amgylchedd y cartref, gan gynnwys ystafelloedd gwely'r plant.

Caiff cynnydd y plant wrth anelu at eu canlyniadau eu mesur a'u monitro. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ystyried sut y gellir gwella'r broses er mwyn sicrhau ei bod yn fwy ystyrlon a chywir.

Nid yw rhai o'r gofalwyr maeth wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu diweddaraf ac mae angen diwygio'r polisi diogelu. Mae angen gwella'r hyfforddiant craidd i ofalwyr maeth a staff ac mae darparwr y gwasanaeth eisoes wedi nodi'r diffyg hwn ac wedi dechrau mynd i'r afael ag ef. Mae llawlyfr gofalwyr maeth ar gael sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am y gwasanaeth i'r gofalwyr maeth.

## Yr Amgylchedd

Mae TACT yn elusen genedlaethol sy'n darparu gwasanaethau maethu cofrestredig ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae TACT Cymru yn gweithredu gwasanaethau maethu yng Nghymru. Mae'r asiantaeth maethu wedi cau pob un o'i swyddfeydd rhanbarthol yng Nghymru, ac mae bellach yn wasanaeth i Gymru gyfan lle mae'r staff yn gweithio o gartref. Caiff mannau cymunedol lleol eu llogi i hwyluso grwpiau cymorth wyneb yn wyneb i ofalwyr, grwpiau plant, hyfforddiant a chyfarfodydd tîm i staff. Mae'r gwasanaeth wedi ymuno â phartneriaeth sy'n cynnwys asiantaethau eraill yng Ngogledd Cymru i ddarparu gwasanaethau wedi'u hatgyfnerthu yn yr ardal hon.

Mae'r gwasanaeth yn wasanaeth di-bapur ac mae'n defnyddio system cofnodion electronig sydd wedi'i diogelu â chyfrinair ac sy'n defnyddio codau mynediad unigol. Mae'r gofalwyr maeth yn cael cyfarpar, hyfforddiant a chymorth addas i'w helpu ag unrhyw anawsterau technegol.

Caiff asesiadau darpar ofalwyr maeth eu rheoli gan dîm recriwtio canolog sydd wedi'i leoli yn Lloegr. Gellir trefnu asesiadau yn Gymraeg. Caiff cartrefi gofalwyr maeth eu hasesu pan gânt eu recriwtio er mwyn cadarnhau eu bod yn addas i ddiwallu anghenion y plant. Caiff yr hyfforddiant sgiliau maethu ei hwyluso fel hyfforddiant byw ar-lein yn ystod y broses asesu a chaiff y rhan fwyaf o gyfarfodydd ac adolygiadau panel hefyd eu cynnal ar-lein.

Mae'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn ymweld â chartrefi yn rheolaidd yn ystod ymweliadau lle rhoddwyd rhybudd ac ymweliadau dirybudd, sy'n rhoi cyfle i asesu amgylchedd y cartref. Ystyrir safonau iechyd a diogelwch cartrefi'r gofalwyr maeth fel rhan o'r broses adolygu ffurfiol a gynhelir bob blwyddyn, a chynhelir asesiadau o anifeiliaid anwes hefyd er mwyn asesu diogelwch. Mae'r plant sy'n byw gyda'r gofalwyr maeth yn personoli eu hystafelloedd gwely sy'n hyrwyddo eu hymdeimlad o berthyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'r datganiad o ddiben. Gwnaethom drafod y wybodaeth ychwanegol y mae angen ei chynnwys. Mae gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol brofiad perthnasol sylweddol, mae ganddynt gymwysterau addas ac maent wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r adborth a gafwyd gan y gofalwyr maeth a'r gweithwyr cymdeithasol am reolaeth ac arweinyddiaeth y gwasanaeth yn gadarnhaol iawn. Dywedodd y gofalwyr maeth wrthym fod y gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a'r rheolwyr ar gael bob amser i roi cyngor a/neu gymorth a bod ganddynt hyder yn y gwasanaeth.

Mae'r rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth wedi cael eu hadolygu ac maent yn dangos gwell dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth yng Nghymru a'r canllawiau cysylltiedig. Fodd bynnag, mae angen diwygio'r polisi diogelu ymhellach i adlewyrchu'r canllawiau cyfredol.  Mae rhai polisïau wedi cael eu datblygu mewn fformat hygyrch i blant ac mae'r rhain hefyd ar gael yn Gymraeg.

Mae'r gofalwyr maeth yn cael eu goruchwylio'n  rheolaidd ac maent yn teimlo bod yr asiantaeth maethu yn eu cefnogi'n dda. Maent yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac ar y cyfan, maent o'r farn bod yr hyfforddiant a gynigir yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, dywedodd y gofalwyr maeth wrthym yr hoffent gael mwy o gyfleoedd i gael hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae'r gofalwyr maeth yn gwerthfawrogi'r cymorth sydd ar gael y tu allan i oriau ac o'r farn bod y cyngor a'r arweiniad a gânt yn ddefnyddiol.

Mae'r gofalwyr maeth yn cwblhau hyfforddiant penodol mewn perthynas ag anghenion unigol y plant maent yn gofalu amdanynt, yn ogystal â hyfforddiant ychwanegol os bydd y math o ofal maent yn ei ddarparu yn newid. Mae'r asiantaeth wrthi'n uwchsgilio ei gofalwyr maeth a'i gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol mewn arferion sy'n ystyriol o drawma. Mae angen gwella cydymffurfiaeth gofalwyr maeth â hyfforddiant craidd a'r system ar gyfer cofnodi a monitro hyfforddiant gofalwyr maeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wrthi'n rhoi cynllun ar waith i sicrhau bod systemau yn cofnodi hyfforddiant y gofalwyr maeth yn fwy cywir.

Caiff y tîm o staff ei gefnogi drwy strwythur rheoli llinell clir a chan y sefydliad ar lefel leol a chenedlaethol. Er bod gan yr asiantaeth dîm hirsefydledig a sefydlog o staff gweinyddol a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol, mae dau ddirprwy reolwr wedi gadael yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi penodi dirprwy reolwr profiadol o ranbarth arall i weithio yn y gwasanaeth yn ddiweddar. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a bod y cyfleoedd hyfforddiant yn dda. Mae'r staff yn cael cyfleoedd i ddal i fyny bob wythnos ac yn cael cyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb yn rheolaidd. Caiff sesiynau goruchwylio staff ac adolygiadau o'u cynlluniau datblygu personol eu cynnal, mae'r cofnodion yn gynhwysfawr ac yn cynnwys adolygiad o gynnydd. Gall y staff godi a rhannu pryderon. Mae hefyd angen gwella'r cofnodion ar gyfer hyfforddiant staff i ddangos bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd diweddaraf.

Mae'r arferion recriwtio staff yn ddigonol; gofynnir am eirdaon a chânt eu dilysu, ac mae asesiadau risg ar waith lle nad oedd modd cysylltu â chyn-gyflogwyr. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys copi o'r disgrifiad swydd sy'n nodi gofynion y rôl a thystiolaeth o gymwysterau

perthnasol. Roedd rhesymau dros adael swyddi lle roedd unigolion yn gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed wedi'u cofnodi yn ffeil yr aelod o staff. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau ar adeg recriwtio ac y cânt eu hadnewyddu. Caiff asesiadau risg eu cwblhau mewn perthynas â throseddau a ddatgelwyd fel rhan o'r broses hon. Fodd bynnag, mae angen i'r gwasanaeth sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol sy'n ymgymryd ag asesiadau maethu yng Nghymru wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae gan y gwasanaeth banel sefydledig a phrofiadol, er bod aelodau wedi symud neu wedi gadael yn ddiweddar. Penodwyd cadeirydd newydd i'r panel yn ddiweddar ac mae wrthi'n ceisio recriwtio aelodau annibynnol â meysydd gwybodaeth penodol eraill. Mae'r aelodau wrthi'n cael arfarniadau blynyddol, ar ôl ychydig o oedi. Mae swyddog gwneud penderfyniadau'r asiantaeth yn ymarferydd annibynnol a phrofiadol ac yn gadeirydd ar y panel. Mae aelodau panel yn craffu ar asesiadau maethu er mwyn sicrhau bod gofalwyr maeth yn ddiogel, yn addas ac yn gymwys i ymgymryd â'r rôl. Mae cofnodion y panel maethu yn dangos tystiolaeth o graffu a gwneud penderfyniadau da wrth gymeradwyo gofalwyr maeth, wrth wneud newidiadau i gymeradwyaeth, a phan fydd pryderon yn cael eu codi mewn perthynas â safonau'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r plant. Mae gweithwyr cymdeithasol annibynnol yn ymgymryd ag adolygiadau blynyddol o ofalwyr maeth, a chânt eu goruchwylio gan swyddog gwneud penderfyniadau'r asiantaeth.

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith, sy'n ategu prosesau gweithredu'r gwasanaeth. Mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r cymorth a ddarperir i'r plant a'r gofalwyr maeth, gan sicrhau bod sesiynau goruchwylio ac adolygiadau blynyddol yn digwydd yn rheolaidd. Mae prosesau sicrhau ansawdd effeithiol hefyd ar waith er mwyn adolygu safonau'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r plant a'r teuluoedd maeth. Caiff ymweliadau ac adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol eu cwblhau'n unol â'r terfynau amser ac maent yn cynnwys adrannau i ddangos pryd yr ymgynghorwyd â'r plant/gofalwyr maeth/staff. Cwblhawyd adolygiad o ansawdd y gofal ac mae'n cynnwys dadansoddiad o ddata a chyfeiriadau at sut y mae'r wybodaeth hon yn cymharu â'r cyfnod adolygu blaenorol. Mae'r adolygiad yn nodi unrhyw batrymau a thueddiadau a meysydd i'w gwella.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/12/2023